# Hysbysiad Preifatrwydd Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant ar gyfer Myfyrwyr Cartref/Rhieni a Gwarcheidwaid Cyfreithiol.

## Cyflwyniad

Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), rhaid i ysgolion a cholegau gyhoeddi Hysbysiad Preifatrwydd i fyfyrwyr / rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol sy'n crynhoi'r wybodaeth a ddelir mewn cofnodion am blant a phobl ifanc, pam y caiff ei ddal, a'r trydydd parti y gellid ei phasio atynt.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am gasglu a phrosesu gwybodaeth bersonol a pherfformiad plant a phobl ifanc gan Goleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant (y cyfeirir ato fel Coleg Dewi Sant o hyn ymlaen).

## Y sail gyfreithiol i'n galluogi i ddefnyddio eich data personol

Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth hon yn cael ei phrosesu fel rhan o'r dasg er budd y cyhoedd o ddarparu addysg i chi. Lle bydd gwybodaeth bersonol o gategori arbennig (e.e. gwybodaeth feddygol) byddwn yn ei phrosesu oherwydd bod budd cyhoeddus sylweddol i wneud hynny.

Os bydd y sail gyfreithiol am brosesu'n amrywio o'r uchod caiff ei nodi'n benodol isod.

## Sut rydym yn trosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol y tu allan i Ewrop.

Nid ydym yn rhannu na throsglwyddo eich data personol y tu allan i Ewrop.

## Sut y caiff eich data ei ddefnyddio

Mae Coleg Dewi Sant yn prosesu eich data ar ran Llywodraeth Cymru, ac i weinyddu'r addysg y mae'n ei ddarparu i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

- darpariaeth addysg i unigolion
- monitro ac adrodd ar gynnydd addysgol disgyblion/plant
- darpariaeth gwasanaethau llesiant, gofal bugeiliol ac iechyd addas
- rhoi cynhaliaeth ac arweiniad i blant a phobl ifanc, eu rhieni a'u gwarcheidwaid cyfreithiol
- trefnu digwyddiadau a theithiau addysgol
- cynllunio a rheolaeth yr ysgol/coleg
- cynorthwyo addysgu a dysgu
- darpariaeth asesu fanwl gywir, monitro ac adrodd ar gynnydd

- i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys cyfleoedd cyfartal a diogelu
- i ddatgelu gwybodaeth i bartïon allanol at bwrpasau diogelu a dyletswydd gofal (ymarferwyr meddygaeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith)
- i hysbysu ystadegau cyrchfannau (cyflogaeth /addysg bellach)
- i adnabod llên-ladrad
- i ddarparu geirdaon i gyflogwyr neu sefydliadau addysg uwch
- i gynorthwyo gyda datblygiad staff addysgu Coleg Dewi Sant
- i ddarparu gwasanaeth Rhaglen Gynorthwyo Myfyrwyr

## Gwasanaeth Cynorthwyol Rhaglen *Wisdom Support*

Mae'r ap *Wisdom Support* yn wasanaeth ar wahân a gynigir i fyfyrwyr Coleg Dewi Sant. Mae *Wisdom* yn darparu gwasanaeth cyfrinachol ac nid yw'r wybodaeth y byddwch yn ei drafod drwy eu hap yn cael ei ddarparu i'r coleg fel rheol, oni bai bod eich iechyd, llesiant neu les yn cael ei farnu i fod mewn perygl union. Yn yr amgylchiadau hyn a lle bydd gweithiwr cefnogi'n meddwl bod angen cymorth ychwanegol arnoch, byddant yn gofyn eich caniatâd i rannu eich enw a gwybodaeth am eu gofidiau gyda'r tîm diogelu a llesiant yn y Coleg, fel y gallant ddarparu cymorth pellach i chi. Mewn rhai amgylchiadau, lle byddwch yn methu rhoi caniatâd neu os byddwch yn gwrthod rhoi caniatâd, gall *Wisdom* ddal i benderfynu rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r Coleg lle bo'n angenrheidiol i warchod eich buddion allweddol i fywyd chi neu rywun arall. Mae'r dull hwn o weithredu'n unol â Pholisi Diogelu'r Coleg yr arwyddoch chi wrth ymrestru.

## O  ble rydyn ni'n casglu'r data?

Mae Coleg Dewi Sant yn casglu gwybodaeth am ei fyfyrwyr, a'u rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol yn ystod y broses ymgeisio / ymrestru. Mae Coleg Dewi Sant hefyd yn casglu gwybodaeth ar adegau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn academaidd a gall dderbyn gwybodaeth gan sefydliadau eraill sy'n cynnwys:

- Sefydliadau addysgol eraill
- Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr
- Byrddau Arholi
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (lle bo'n angenrheidiol yn ôl y rhaglen astudio)
- Llywodraeth Cymru
- Awdurdod Lleol Caerdydd
- Wrth y dysgwr, pan fydd yn datgelu data personol wrth gael mynediad i wasanaethau'r coleg (e.e. cwnsela, Rhaglen Gymorth i Fyfyrwyr, *Health Assured* a chyngor gyrfaoedd).

## Pa wybodaeth ydyn ni'n ei gasglu?

Mae Coleg Dewi Sant dim ond yn casglu'r data sydd ei angen er mwyn cyflawni ein dyletswyddau addysgol a chefnogol.  Yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (os gwelwch yn dda gweler yr adran a enwir Hysbysiad Preifatrwydd Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru  (LLWR) ), rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol:

- manylion cyswllt rhiant / warcheidwad cyfreithiol
- rhif ffôn symudol
- cyfeiriad e-bost
- manylion statws mewnfudo plant a phobl ifanc
- math o ddogfen adnabod

- iaith gyntaf
- gwybodaeth asesiadau / addysgol
- gwybodaeth ysgoloriaethau
- gwybodaeth ariannol/bancio (lle bo angen)
- hoffterau personol a diddordebau
- gwybodaeth a ddelir gan systemau diogelwch gan gynnwys CCTV, Fideo wedi Gwisgo ar y Corff (BWV) a systemau mynediad drysau
- gwybodaeth ar wefannau rydych wedi cyrchu wrth ddefnyddio systemau'r coleg (gan gynnwys wifi)
- ffotograffau/ fideos
- rhif cofrestru car, math a model lle byddwch yn defnyddio'r adnoddau parcio ar y safle

Yn ogystal â'r uchod, mae Coleg Dewi Sant yn cofnodi'r data categori arbennig isod:

- crefydd
- tarddiad hil ac ethnigrwydd
- gwybodaeth iechyd

a gwybodaeth categori arbennig angenrheidiol sy'n ymwneud â:

- gwybodaeth am unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (Anghenion Addysgol Arbennig gynt)
- gwybodaeth am y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc unigol lle bo angen hyn er mwyn gofal y dysgwr
- gwybodaeth feddygol angenrheidiol er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel tra'u bod dan ofal Coleg Dewi Sant.
- Gwybodaeth a ddarparwyd i swyddogion diogelu a llesiant, sydd ei angen er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel tra'u bod dan ofal Coleg Dewi Sant.

## Marchnata

At bwrpasau marchnata byddwn yn casglu'ch enw, dyddiad geni, ysgol gyfredol, e-bost, rhif ffôn, dewisiadau pwnc, llwyddiannau, cyrchfan cyfredol, ffotograffau, fideos a datganiadau / geirdaon.

Gyda chaniatâd neu fuddiant dilys byddwn yn prosesu eich gwybodaeth mewn ymgyrchoedd marchnata'r coleg e.e. hysbysebion, prosbectws, gwefan, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y coleg ac arddangosfeydd cyffredinol o gwmpas y coleg. Er mwyn arddangos cyrsiau ac adnoddau a rhoi argraff gyffredinol o sut brofiad fyddai astudio yng Ngholeg Dewi Sant neu i'ch hysbysu chi am gyfleoedd ehangach i ddysgu a rhyngweithio e.e. digwyddiadau agored.

Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl, a bydd cyfathrebiadau e-bost yn darparu'r gallu i chi ddad-danysgrifio o'r marchnata. Yn ogystal, gallwch wireddu eich hawl i wrthwynebu lle mai buddiant dilys yw'r cyfiawnhad cyfreithiol am weithredoedd marchnata. Os gwelwch yn dda e-bostiwch DataProtection@stdavidscollege.ac.uk am ragor o wybodaeth ar gael mynediad at eich hawliau.

Efallai byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda darparwyr argraffu trydydd parti. Ym mhob achos yr isafswm posib o wybodaeth a gaiff ei rannu.

Bydd Marchnata'n cadw eich gwybodaeth yn unol â Rhaglen Cadw Cofnodion Coleg Dewi Sant.

## Defnydd o Systemau Goruchwyliaeth

Mae'r coleg yn gweithredu system goruchwyliaeth ar draws ei ystâd, gan gynnwys CCTV, Fideo Gwisgir ar y Corff (BWV) gan staff awdurdodol, ac ANPR i reoli'r maes parcio a mynediad cerbydau ar sail gyfreithiol Tasg Gyhoeddus ac, mewn amodau cyfyngedig, budd cyfreithiol. Lle mae data categori arbennig neu ddata trosedd yn cael ei brosesu mae hynny ar sail budd sylweddol y cyhoedd, diogelu'r cyhoedd, a gwarchod plant ac unigolion dan risg. Defnyddir y systemau hyn at y pwrpasau canlynol:

- Er diogelwch staff, myfyrwyr, ymwelwyr, contractwyr ac unigolion eraill sy'n mynychu safle'r coleg.
- Er diogelwch a gwarchod adeiladau'r coleg, cerbydau, offer ac asedion eraill.
- Er mwyn atal, lleihau, canfod ac archwilio i weithredoedd troseddol.
- Er mwyn cynorthwyo mewn ymchwiliadau i doriadau honedig o bolisïau'r coleg, ei weithdrefnau, rheoliadau a chodau ymddygiad.
- Er mwyn monitro a rheoli mynediad cerbydau, llif y traffig a digwyddiadau derbyn nwyddau.

Gellir rhannu data goruchwylio â staff mewnol ag awdurdod lle bo angen at y pwrpasau a restrir uchod. Gall data gael ei rannu gyda sefydliadau allanol megis yr Heddlu, gwasanaethau brys, yswirwyr neu gynrychiolwyr cyfreithiol, ond dim ond yn unol â darpariaeth y gyfraith a dim ond yr isafswm angenrheidiol o ddata a gaiff eu datgelu.

Gweithredir yr holl systemau goruchwyliaeth yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau System Goruchwyliaeth, GDPR y DU a Deddf Gwarchod Data 2018. Caiff ffilm a recordiwyd ei gadw yn unol ag Amserlen Cadw Cofnodion y Coleg.

## Sefydliadau y gallwn rannu gwybodaeth bersonol gyda hwy

Gall gwybodaeth y'i delir gan Goleg Dewi Sant hefyd gael ei rannu gyda sefydliadau eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu ac os bydd pob cam posibl yn cael ei gymryd i gadw'r wybodaeth yn ddiogel, er enghraifft:

- cyrff addysg a hyfforddiant eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd plant a phobl ifanc yn ymgeisio am gyrsiau neu hyfforddiant, yn trosglwyddo ysgolion neu'n chwilio am arweiniad ar gyfleoedd;
- llywodraeth ganolog a lleol at bwrpas cynllunio a darparu gwasanaethau addysg;
- gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill lle bo angen rhannu gwybodaeth er mwyn gwarchod a chynnal plant a phobl ifanc unigol;
- darparwyr System Rheoli Gwybodaeth (MIS) er mwyn sicrhau bod y gweithrediad a chywirdeb y system yn cael ei gynnal;
- darparwyr system "dim arian parod" dan gytundeb â'r Coleg er mwyn sicrhau bod holl ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid gyda chyfrifoldeb rhieni a staff yr ysgol yn gallu defnyddio'r system mewn ffordd addas;
- System Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) er mwyn cefnogi dadansoddiad ystadegol rhanbarthol yn ôl y galw gan Lywodraeth Cymru;
- Amrywiaeth o gyrff rheoleiddio, megis ombwdsmon ac awdurdodau arolygu (ESTYN), lle bo disgwyliad yn y gyfraith y caiff gwybodaeth ei ddarparu er mwyn iddynt wneud eu gwaith;
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) er mwyn gwella ansawdd ystadegau mudo a phoblogaeth;
- cyrff dyfarnu megis CBAC a Pearson;

- partïon eraill, os oes gofyn yn ôl y gyfraith mewn cysylltiad ag unrhyw weithrediadau cyfreithiol;
- sefydliadau addysgu uwch a Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS);
- Gyrfa Cymru;
- Y Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr ar bwrpas casglu Rhifau Unigryw'r Dysgwr (ULN);
- Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST);
- Cyllid Myfyrwyr Cymru at bwrpas prosesu a thalu Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA);
- asiantaethau diogelwch a heddlu ar gyfer diogelu ac at bwrpas dyletswydd gofal;
- archwilwyr mewnol ac allanol;
- Asiantaeth Ffiniau'r DU (lle bo'n berthnasol);
- Gwasanaeth Cynhaliaeth Myfyrwyr Wisdom;
- cyflogwyr at bwrpas cyflawni ceisiadau am eirdaon
- cyflenwyr meddalwedd penodol i goleg neu bwnc, er mwyn galluogi mynediad i systemau allanol

Ym mhob achos, y lleiafrif posibl o wybodaeth a gaiff ei rannu gydag asiantaethau allanol.

## Rhieni a Gwarcheidwaid

Yn unol â rheoliadau GDPR, gall dysgwyr dros 16 oed roi caniatâd ar gyfer prosesu eu gwybodaeth bersonol heb fewnbwn gan rieni neu warcheidwaid cyfreithiol. Mae Coleg Dewi Sant yn credu bod perthynas agos rhwng y Coleg, dysgwyr a rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol yn llesol i gwblhad llwyddiannus y rhaglen astudiaeth ac o'r herwydd bydd yn cysylltu â rhieni a gwarcheidwaid cyfreithiol ynghylch gofidiau am astudiaethau'r myfyriwr.

## Diogelwch

Mae Coleg Dewi Sant, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru'n pwysleisio gwerth uchel bwysigrwydd diogelwch gwybodaeth ac mae nifer o ddulliau yn eu lle i ostwng y posibiliad o beryglu data. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n gywir bob amser ac yn cael ei phrosesu yn unol â'n dyletswyddau cyfreithiol.

Mae pob aelod o staff Coleg Dewi Sant wedi cael hyfforddiant gorfodol mewn GDPR a'u dyletswyddau i sicrhau cydymffurfiaeth.

## Amserlen Cadw Gwybodaeth

Bydd Coleg Dewi Sant dim ond yn cadw eich data personol am gyfnod addas o amser. Os gwelwch yn dda cyfeiriwch at Amserlen Cadw Cofnodion y Coleg am ragor o wybodaeth.

## Eich Hawliau

Mae'r deddfau Diogelu Data a GDPR yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â gwybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw sefydliad. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

- yr hawl i ofyn am a derbyn copïau o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch, er y gall rhywfaint o wybodaeth gael ei gadw yn ei ôl weithiau (yr hawl i fynediad);
- i gywiro anghywirdebau yn y data personol yr ydym yn ei ddal amdanoch (yr hawl i gywiro);

- i gael eich anghofio - eich manylion i gael eu tynnu oddi ar systemau yr ydym yn eu defnyddio i brosesu eich data personol (mewn amgylchiadau penodol) (yr hawl i ddileu);
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal prosesu gwybodaeth bersonol (yr hawl i gyfyngu ar brosesu);
- i gael copi o'ch data personol ar ffurf gyffredin electronig (yr hawl i gludadwyedd data);
- i wrthwynebu i brosesu penodol eich data personol gennym ni.

I ymholi am eich hawliau, neu i fynnu ar eich hawliau, gallwch e-bostio:

DataProtection@stdavidscollege.ac.uk

Os gwelwch yn dda nodwch nad yw hyn yn lleihau effaith eich hawl i gael mynediad i hawl drwy ddulliau eraill.

Yn ogystal, mae gyda chi'r hawl i ofyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sy'n gorfodi a goruchwylio GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data, i asesu p'un ai mae prosesu gwybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio i ddarpariaethau ein dyletswyddau deddfwriaethol.

## Cwynion Diogelu Data

Os oes pryderon gyda chi am sut mae'r Coleg wedi casglu, defnyddio, rhannu, storio neu brosesu eich data personol mewn unrhyw ffordd, anogwn ni chi i gysylltu â ni yn y lle cyntaf er mwyn i ni ymchwilio ac, lle bo'n briodol, adfer y mater.

Gall cwynion diogelu data gael eu cyflwyno drwy e-bost at dataprotection@stdavidscollege.ac.uk <mailto:dataprotection@stdavidscollege.ac.uk>. Er mai hon yw'r ffurf o gysylltu rydym yn ei ffafrio, gellir codi cwynion drwy sianeli cyfathrebu eraill ac ni chânt eu gwrthod dim ond am eu bod wedi cael eu cyflwyno drwy ffordd arall.

Mae gwybodaeth bellach am sut mae'r coleg yn trafod cwynion diogelu data ar gael yn ein Gweithdrefnau Cwynion Diogelu Data.

Mae hawl gyda chi hefyd i godi pryderon gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar unrhyw adeg. Ceir gwybodaeth am sut i gwyno i'r ICO yma.

## Chwilio am wybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach am yr wybodaeth bersonol sy'n cael ei chasglu, a'i defnydd, os oes gofidiau gyda chi am gywirdeb gwybodaeth bersonol, neu rydych eisiau gweithredu eich hawliau o dan Ddeddf Gwarchod Data 2018 a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol, dylech gysylltu â:

- Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant, Ffordd Tŷ Gwyn, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 5QD. Ffôn: 02920498555. E-bost: dataprotection@stdavidscollege.ac.uk
- Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bost Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

- Llinell gymorth Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth 0330 414 6421 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
- Mae gwybodaeth hefyd ar gael gan www.ico.gov.uk

## Hysbysu am Newidiadau

Os caiff unrhyw newidiadau eu gwneud i'r hysbysiad preifatrwydd hwn, byddwch yn derbyn rhybudd. Bydd fersiwn gyfredol yr hysbysiad preifatrwydd ar gael ar wefan Coleg Dewi Sant.

## Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru / Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

### Cyflwyniad

Mae'r rhaglen ddysgu yr ydych ar fin ymrestru ar ei gyfer / wedi ymrestru ar ei gyfer yn cael ei hariannu naill ai yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (LlC) neu'n rhannol gael ei ariannu fel gweithredoedd a gymeradwyir (drwy Lywodraeth Cymru) gan y Gronfa Ewropeaidd Gymdeithasol (ESF).
Er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen hon, bydd yn rhaid i chi ddarparu data personol. Rydym yn dibynnu ar erthygl 6(1)(e) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data fel sail gyfreithiol i brosesu eich data personol. Mae hyn yn caniatáu i ni fodloni ein dyletswyddau cyfreithiol a gweinyddu a monitro'r cyllid a ddarperir gennym. Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth categori arbennig, fel ethnigrwydd, bydd yn cael ei phrosesu am resymau diddordeb cyhoeddus sylweddol (o dan Erthygl 9(2)(g) a dibenion ystadegol (o dan Erthygl 9(2)(j). Ceir rhestr lawn o ddata categori arbennig yn 'rhan dau/fersiwn iawn' o'r hysbysiad preifatrwydd.

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw ddata personol a ddarperir gennych o 1 Awst 2024 hyd at 1 Ebrill 2025. Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu data ar ei rhan ei hun ac ar ran corff hyd braich newydd o'r enw Medr (enw Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru). Bydd Medr yn prosesu data yn ymwneud â phrentisiaethau, addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned ar ran Llywodraeth Cymru.

Gan fod eich rhaglen yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, efallai y bydd eich darparwr dysgu yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol megis pasbort, slip cyflog diweddar neu dystysgrif cymhwyster i sicrhau eich bod yn gymwys.

### At ba ddiben y bydd Llywodraeth Cymru a Medr yn defnyddio eich gwybodaeth?

Bydd Llywodraeth Cymru a Medr yn defnyddio eich data at ddibenion ariannu, cynllunio a datblygu polisi yn ogystal â monitro deilliannau dysgwyr (megis ennill cymwysterau, cynnydd dysgwyr a chyrchfannau).

Yn ychwanegol, bydd eich data yn cael eu defnyddio mewn ystadegau ac ymchwil swyddogol, gan gynnwys sut y mae iechyd ac amgylchiadau unigol yn cael effaith ar ddeilliannau addysgol dysgwyr yng Nghymru. Mae ein hadroddiadau ystadegau swyddogol yn rhoi darlun cyffredinol o ddysgwyr yng Nghymru, beth y maent yn eu hastudio, eu canlyniadau a'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael. Er enghraifft, maent yn cynnwys, gwybodaeth am batrymau o ran rhyw ac oedran dysgwyr a'r cymwysterau, pynciau a'r lefelau y maent yn eu hastudio. Ni ellir adnabod dysgwyr unigol o'r cyhoeddiadau hyn.

Fel rhan o ffrwd cyflogaeth Twf Swyddi Cymru Plws (TSC+), defnyddir data i bennu taliadau cymhorthdal cyfradd cyflog Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod cyflogaeth, er mwyn sicrhau bod y cyflog cywir yn cael ei dalu i'r cyfranogwr. Bydd data cyflogwyr hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi, monitro a phennu cyrchfan y cyfranogwyr hynny drwy gyflogaeth.

Bydd sefydliadau ymchwil hefyd yn defnyddio data dysgwyr ôl-16 er mwyn gwerthuso rhaglenni a pholisïau addysg yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith gwerthuso, efallai y byddant yn cynnal arolygon dysgwyr dewisol, a fydd yn asesu effaith rhaglen ar y dysgwr unigol yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Er mwyn i Lywodraeth Cymru asesu'r effaith y mae eu rhaglenni yn ei chael ar grwpiau o ddysgwyr penodol, byddwn yn cysylltu'ch data gyda chofnodion addysgol eraill a gedwir gennym, megis y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru a’r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch. Rydym yn defnyddio hyn i'n helpu i ddeall cynnydd a deilliannau dysgwyr yng Nghymru, er mwyn llywio ein hymchwil, mesurau perfformiad a chyhoeddiadau ystadegol. Efallai y byddwn yn rhannu hyn hefyd gydag ymchwilwyr a chyda'n partneriaid, gan gynnwys Estyn a Cymwysterau Cymru, er mwyn eu cynorthwyo i gynnal eu dadansoddiad nhw o'r data i lunio arolygiadau ac adolygiadau. Ni ellir adnabod dysgwyr unigol o'r data hyn yr ydym yn eu rhannu â'n partneriaid.

Am restr fanylach o sut y mae eich data yn cael eu defnyddio, cyfeiriwch at y 'rhan dau/fersiwn lawn' o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

### Pwy y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data â nhw a pham?

Gwelwch y 'rhan dau/fersiwn lawn' o'r hysbysiad preifatrwydd am esboniad llawn o bwy rydym yn rhannu eich data â nhw a pham.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data gallwch:

- weld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch chi
- ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- gwrthwynebu unrhyw achos o brosesu’r data, am resymau’n ymwneud â’ch sefyllfa benodol chi (mewn rhai amgylchiadau)
- cyfyngu ar waith prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael eu ‘dileu’ (o dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

## Am ba mor hir y bydd Llywodraeth Cymru’n cadw eich data?

| Y math o ddata | Cyfnod cadw data | Defnyddio’r Data |
|---|---|---|
| Addysg Bellach a Dysgu Oedolion | Bydd eich data’n cael eu dileu ar ôl 10 mlynedd | Mae’n galluogi Llywodraeth Cymru i ddadansoddi data dysgwyr a chreu adroddiadau dros gyfnod o amser. Bydd yr adroddiadau hynny yn cael eu defnyddio i helpu i lywio penderfyniadau ynghylch polisïau neu ragweld cyllid yn y dyfodol. Os caiff y dysgu ei ariannu gan Gronfa |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gymdeithasol Ewrop, cedwir data fel bod modd eu gwirio a'u harchwilio. Yr Undeb Ewropeaidd sy'n penderfynu ar y cyfnodau amser ar gyfer cadw data. |

Manylion cyswllt

I wybod mwy am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
Gwefan: https://ico.org.uk/

### Hysbysu ynghylch newidiadau

Diweddarwyd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn ddiwethaf ym mis Mehefin 2024 ac rydym yn ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir. Byddwn wastad yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r defnydd a wnawn o'ch data drwy'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn a'ch darparwr. Bydd pob achos o brosesu data gan Lywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol ym maes diogelu data.

Os hoffech beidio â chyflwyno eich data categori arbennig ar unrhyw adeg, dylech gysylltu â'ch darparwr dysgu a fydd yn diweddaru'ch cofnod.

## Hysbysiad Preifatrwydd LRS yr Adran Addysg

### Trosolwg

Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, mae ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, a sefydliadau'r sector hyfforddi yn gyfrifol am gyhoeddi copi o'r hysbysiad preifatrwydd hwn i ddysgwyr a/neu rieni/warcheidwaid. Mae'r hysbysiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth a gedwir ar gofnod amdanynt, pam ei bod yn cael ei chadw a'r trydydd parti y gellir rhannu'r data â nhw.

## Hysbysiad preifatrwydd i ddisgyblion, myfyrwyr, dysgwyr a hyfforddai.

Mae'r wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu (LRS). Mae'r LRS yn cyhoeddi Rhifau Dysgwr Unigryw (ULN) ac yn creu Cofnodion Dysgu Personol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac fe'i gweithredir gan yr Adran Addysg (DfE) yn Lloegr. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol. At ddibenion deddfwriaeth diogelu data perthnasol, yr Adran Addysg yw'r rheolwr data ar gyfer gwybodaeth bersonol a brosesir.

## Pwy ydyn ni

Mae'r LRS yn cefnogi'r Adran Addysg drwy gasglu gwybodaeth am ddysgwyr gan ddarparwyr hyfforddiant a sefydliadau dyfarnu. At ddibenion deddfwriaethau diogelu data perthnasol, yr Adran Addysg yw'r rheolwr data ar gyfer gwybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu.

## Sut byddwn ni’n defnyddio’ch gwybodaeth

Rydym yn derbyn eich data personol gan:

- ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, a darparwyr hyfforddiant/dysgu
- data cyflawniad achrededig a gyflenwir gan sefydliadau dyfarnu

Nod LRS yw:

- creu cofnod dysgu dibynadwy a dilys ar gyfer dinasyddion ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
- galluogi sefydliadau addysg i gael mynediad at y cofnodion hyn pan fo angen i gefnogi unigolion sy'n cofrestru ar gyfer cyngor addysg a gyrfaoedd, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad at yr addysg a'r cyllid llywodraeth cywir
- rhoi Rhif Dysgwr Unigryw (ULN) i chi
- creu eich Cofnod Dysgu Personol (PLR)
- casglu data cofnodion a chanlyniadau a ddefnyddir i greu cyhoeddiadau ystadegol cenedlaethol

## Natur eich data personol bydd LRS yn eu prosesu

Mae'r categorïau o ddata personol y gellir eu prosesu yn LRS yn cynnwys:

- manylion cyswllt personol
- data sy'n ymwneud â dysgu unigolyn
- data a gwybodaeth am eich dysgu, gan gynnwys cyrsiau a chymwysterau rydych chi'n eu cymryd neu wedi'u cymryd

Er mwyn sicrhau bod ein cofnodion yn gywir, efallai y bydd angen i ddarparwyr hyfforddiant gasglu rhagor o wybodaeth bersonol gennych chi. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i adnabod y dysgwr cywir lle mae eu gwybodaeth bersonol yn debyg i ddysgwyr eraill (e.e. enw(au) a dyddiad geni):

- lle mae angen rhagor o wybodaeth i wahaniaethu rhwng dysgwyr, ystyrir bod y wybodaeth bersonol ganlynol yn orfodol:
- cod post diwethaf hysbys
- dyddiad geni
- rhyw

## Pam mae ein defnydd o'ch data personol chi'n gyfreithlon

Er mwyn i'n defnydd o'ch data personol fod yn gyfreithlon, mae angen i ni fodloni un (neu fwy) o amodau yn y ddeddfwriaeth diogelu data. Ar gyfer LRS, yr amodau perthnasol yw:

• Erthygl 6(1)(e) o Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR), i gyflawni tasg gyhoeddus fel rhan o'n swyddogaeth fel adran

Rydym hefyd yn dibynnu ar fuddiannau cyfreithlon, lle efallai y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol ychwanegol, i'ch gwahaniaethu chi oddi wrth unigolyn arall. Dyma:

• Erthygl 6(1)(f) o Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU

## I bwy fydd eich data personol ar gael iddynt gennym ni

Weithiau mae angen i ni sicrhau bod data personol ar gael i sefydliadau eraill. Gallai'r rhain gynnwys partneriaid dan gontract (yr ydym wedi'u cyflogi i brosesu eich data personol ar ein rhan) a/neu sefydliadau eraill (y mae angen i ni rannu eich data personol gyda nhw at ddibenion penodol).
Lle mae angen i ni rannu eich data personol ag eraill, rydym yn sicrhau bod y rhannu data hwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Ar gyfer LRS rydym yn rhannu eich data personol â'r canlynol:

- ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, a darparwyr hyfforddiant/dysgu pan fyddwch chi'n cofrestru ar gwrs
- cyrff dyfarnu i gofnodi gwybodaeth am gyflawniad/cyrhaeddiad fel graddau arholiad neu gwrs
- sefydliadau a ganiateir fel Ffederasiwn Sgiliau a Safonau'r Diwydiant (FISSS) a Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau (UCAS) i gofnodi neu wirio cymwysterau unigolion

## Am ba mor hir byddwn ni'n cadw eich data personol

Mae'r PLR yn gofnod gydol-oes o gyrhaeddiad i bob dysgwr.

Caiff pob data yn LRS ei gadw hyd nes bydd y dysgwr yn 80 oed a heb fod wedi ymgysylltu â darparwr addysg am 7 mlynedd.

## Eich hawliau gwarchod data

Mae gennych hawliau penodol o dan gyfraith diogelu data. Gallwch:

- Gofyn am gopi o'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â chi a gedwir gan yr Adran Addysg. Gallwch wneud hyn drwy wneud Cais Mynediad i Wybodaeth gan ddefnyddio Ffurflen Gyswllt yr Adran Addysg.

Mae'r Adran Addysg yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ar LRS wrth arfer ei hawdurdod swyddogol o dan Ddeddf Addysg 2011 a Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Mae hyn yn caniatáu inni sicrhau bod darparwyr hyfforddiant yn hawlio'r cyllid llywodraeth cywir, yn diogelu arian cyhoeddus ac yn atal twyll.
Cyhoeddir rhagor o wybodaeth am sut mae'r Adran Addysg yn trin gwybodaeth bersonol yn Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Adran Addysg. Os oes angen i chi gysylltu â ni ynghylch unrhyw un o'r uchod, gwnewch hynny drwy wefan yr Adran Addysg yn Adran Addysg y DU Cysylltwch â ni <https://form.education.gov.uk/service/Contact_the_Department_for_Education>

Os na allwch ddefnyddio'r ffurflen gyswllt ar-lein, gallwch ysgrifennu atom yn y cyfeiriad a ddarperir o dan Wybodaeth Gyswllt isod.
Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau diogelu data yn ymddangos ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Hawliau Unigol.

## Diweddariad diwethaf

Efallai bydd angen inni ddiweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn bob hyn a hyn, felly rydym yn argymell eich bod yn ailymweld â'r wybodaeth hon o dro i dro. Cafodd y fersiwn hon ei diweddaru diwethaf ar 27 Tachwedd 2023.